



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2018 Rhif 122 (Cy. 28)**

**2018 No. 122 (W. 28)**

**ARDRETHU A PHRISIO,  
CYMRU**

**RATING AND VALUATION,  
WALES**

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig  
(Hysbysiadau Galw am Dalu)  
(Cymru) (Diwygio) 2018**

**The Non-Domestic Rating  
(Demand Notices) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2018**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 (“Rheoliadau 2017”) (O.S. 2017/113 (Cy. 39)) yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig a gyflwynir gan awdurdodau bilio yng Nghymru, neu ar eu rhan. Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y nodiadau esboniadol y mae'n rhaid iddynt fynd gyda hysbysiad galw am dalu, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sy'n gymwys yng Nghymru.

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 2017 (“the 2017 Regulations”) (S.I. 2017/113 (W. 39)) provide for the contents of non-domestic rates demand notices which are served by or on behalf of billing authorities in Wales. Schedule 2 to the 2017 Regulations sets out the information which must be included in the explanatory notes that must accompany a demand notice, which includes information as to the small business rates relief scheme that is applicable in Wales.

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 (“Gorchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach 2017”) (O.S. 2017/1229 (Cy. 293)) yn cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi newydd i fusnesau bach yng Nghymru o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2017 fel bod yr wybodaeth a ddarperir yn y nodiadau esboniadol sy'n mynd gyda hysbysiadau galw am dalu a ddyroddir mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018, neu ar ôl hynny, yn cyfeirio at Orchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach 2017.

The Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2017 (“the 2017 Small Business Relief Order”) (S.I. 2017/1229 (W. 293)) introduces a new small business rates relief scheme in Wales from 1 April 2018. These Regulations amend Schedule 2 to the 2017 Regulations so that the information provided in the explanatory notes that accompany demand notices issued in relation to financial years beginning on or after 1 April 2018, refers to the 2017 Small Business Relief Order.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2018 Rhif 122 (Cy. 28)**

**ARDRETHU A PHRSIO,  
CYMRU**

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig  
(Hysbysiadau Galw am Dalu)  
(Cymru) (Diwygio) 2018**

*Gwnaed* 31 Ionawr 2018  
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 2 Chwefror 2018  
*Yn dod i rym* 23 Chwefror 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62 a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(1), a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Chwefror 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiadau galw am dalu sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018, neu ar ôl hynny, ac a ddyroddir gan awdurdodau bilio Cymreig, neu ar eu rhan.

- 
- (1) 1998 p. 41. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 gan Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15). Diwygiwyd paragraff 2(2)(h) o Atodlen 9 gan adran 8(1) a (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17); ac adrannau 139 a 194(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), a pharagraffau 1, 44(2), (3) a (4) o Atodlen 5 a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi.
- (2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

**2018 No. 122 (W. 28)**

**RATING AND VALUATION,  
WALES**

**The Non-Domestic Rating  
(Demand Notices) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2018**

*Made* 31 January 2018  
*Laid before the National Assembly  
for Wales* 2 February 2018  
*Coming into force* 23 February 2018

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 62 and 146(6) of, and paragraphs 1 and 2(2)(h) of Schedule 9 to, the Local Government Finance Act 1988(1), and now vested in them(2).

**Title, commencement, application and interpretation**

1.—(1) The title of these Regulations in the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2018.

(2) These Regulations come into force on 23 February 2018.

(3) These Regulations apply in relation to demand notices which relate to financial years beginning on or after 1 April 2018 and are issued by or on behalf of Welsh billing authorities.

- 
- (1) 1998 c. 41. Paragraph 1 of Schedule 9 was amended by Schedule 13 to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 (c. 15). Paragraph 2(2)(h) of Schedule 9 was amended by section 8(1) and (3) of the Local Government Finance Act 2012 (c. 17); and sections 139 and 194(4) of, and paragraphs 1, 44(2), (3) and (4) of Schedule 5 and Part 2 of Schedule 12 to, the Local Government and Housing Act 1989 (c. 42).
- (2) The powers of the Secretary of State were transferred, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “hysbysiad galw am dalu” yw hysbysiad galw am dalu o fewn yr ystyr a roddir i “demand notice” yn Rhan II o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989(1) a gyflwynir gan awdurdod bilio neu unrhyw berson a awdurdodir gan awdurdod bilio i arfer unrhyw swyddogaethau sy’n ymwneud â chasglu ardrethi annomestig (gan gynnwys hysbysiad o’r fath a gyflwynir yn unol â Rhan II o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990(2) (cydberchnogion a chydfeddiawyr)).

### **Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiodau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

2. Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiodau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(3) (nodiadau esboniadol), yn y paragraff o’r enw rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, yn lle “Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015”(4) rhodder “Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017”(5).

(4) In these Regulations “demand notice” (“*hysbysiad galw am dalu*”) means a demand notice within the meaning of Part II of the Non-Domestic Rating (Collection and Enforcement) (Local Lists) Regulations 1989(1) which is served by a billing authority or any person authorised by a billing authority to exercise any functions relating to the collection of non-domestic rates (including such a notice served pursuant to Part II of the Non-Domestic Rating (Collection and Enforcement) (Miscellaneous Provisions) Regulations 1990(2) (joint owners and occupiers)).

### **Amendment to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 2017**

2. In paragraph 1 of Schedule 2 to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 2017(3) (explanatory notes), in the paragraph entitled small business rate relief, for “The Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2015”(4) substitute “The Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2017”(5).

*Mark Drakeford*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru  
31 Ionawr 2018

Cabinet Secretary for Finance, one of the Welsh Ministers  
31 January 2018

©<sup>©</sup> Hawlfraint y Goron 2018

© Crown copyright 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 1989/1058 fel y’i diwygiwyd gan O.S. 1990/145, 1992/1512, 1993/616, 1993/774, 1993/1493, 2009/461 (Cy. 48), 2010/2222 (Cy. 194), 2012/466 (Cy. 77) ac O.S. 2017/113 (Cy. 39).  
(2) O.S. 1990/145 fel y’i diwygiwyd gan O.S. 1993/616 ac O.S. 2014/600.  
(3) O.S. 2017/113 (Cy. 39).  
(4) O.S. 2015/229 (Cy. 11) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2016/32 (Cy. 13) ac O.S. 2017/25 (Cy. 9).  
(5) O.S. 2017/1229 (Cy. 293).

(1) S.I. 1989/1058 as amended by S.I. 1990/145, 1992/1512, 1993/616, 1993/774, 1993/1493, 2009/461 (W. 48), 2010/2222 (W.194), 2012/466 (W. 77) and S.I. 2017/113 (W. 39).  
(2) S.I. 1990/145 as amended by S.I. 1993/616 and S.I. 2014/600.  
(3) S.I. 2017/113 (W. 39).  
(4) S.I. 2015/229 (W. 11) as amended by S.I. 2016/32 (W. 13) and S.I. 2017/25 (W. 9).  
(5) S.I. 2017/1229 (W. 293).



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2018 Rhif 122 (Cy. 28)**

**2018 No. 122 (W. 28)**

**ARDRETHU A PHRSIO,  
CYMRU**

**RATING AND VALUATION,  
WALES**

Rheoliadau Ardrethu Annomestig  
(Hysbysiadau Galw am Dalu)  
(Cymru) (Diwygio) 2018

The Non-Domestic Rating  
(Demand Notices) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2018

£4.25

W201801311013 02/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/122>

ISBN 978-0-348-20200-7



9 780348 202007